**PENDERFYNIADAU'R cyfarfod hybrid o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 14 Hydref 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol**: | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Non Dafydd, Douglas Massie Fowlie, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams and Liz Wood.<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol. |
| **Ymddiheuriadau**: | Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig<br>Mrs Wenda Owen - Yr Eglwys yng Nghymru<br>Ms Kathryn Seeney – Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd<br>Ms Christina Williams – Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY |
| **Wrth law**: | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Gary Pritchard – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd (eitem 4)<br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio dros Hamdden, Twristiaeth a Morwrol.<br>Cynghorydd Dyfed W Jones – Aelod Portffolio dros Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio dros Gynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd.<br>Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai<br>Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg<br><br>Dafydd Gruffydd - Menter Môn (ar gyfer eitem 4)<br>Elen Hughes - Menter Môn (ar gyfer eitem 4)<br><br>Ms Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (ar gyfer eitem 5).<br>Elliw Llŷr - Rheolwr Gwasanaethau Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (ar gyfer eitem 5). |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 2 **Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol sydd ddim yn rhagfarnol gan ei bod yn Rheolwr Busnes 'Bwyd Da Môn' sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Menter Môn (eitem 4).<br><br>Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol ond dim rhagfarnol gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd (eitem 5). |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 **Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Medi 2025 yn gywir.<br><br>**Camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfod 12 Chwefror 2025:-**<br><br>**Gweithred:** Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i nodi bod angen darparu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.<br><br>**Diweddariad:** Derbyniwyd ymateb yn ddiweddar gan ysgrifennydd y cabinet dros addysg yn tynnu sylw at yr ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy gyllid cynaliadwy, cefnogaeth i'r gweithlu, a digwyddiadau sydd wedi'u hanelu at addysg gynhwysol, gan gynnwys mwy o gyllid ar gyfer Cydlynwyr ADY, cwnsela ysgolion, a mentrau iechyd meddwl. Mae hefyd yn cydnabod heriau cyfredol megis pwysau cyfreithiol, straen ar y gweithlu, a chymhwyso anghyson o'r fframwaith ADY, gyda chamau'n cael eu cymryd i wella eglurder, hyfforddiant, a chapasiti rhanbarthol, gan gynnwys cefnogaeth i raglen seicoleg addysgol newydd ym Mhrifysgol Bangor.<br><br>**CYTUNWYD i atodi'r llythyr i gofnodion cyfarfod heddiw.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 **Craffu Partneriaethau Strategol - Menter Môn** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad a'r cynnwys yn gynwysedig.** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi fod y Pwyllgor Sgriwtini yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor - 2025/2026** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r blaen raglen waith ar gyfer 2025/2026 a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.** |